

ANGERDD AM
HANES CYMRU...

Astudiaeth Achos Edward Roberts



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Yn wreiddiol o Lanelwy yn Sir Ddinbych, mae Edward yn angerddol am hanes ac mae'n awyddus i'w rannu ag eraill. Deffrowyd yr angerdd hwn ynddo diolch i'w athrawon yn ysgol uwchradd Dinbych, ac nid yw wedi anghofio maint eu hymdrechion i wneud y pwnc mor ddiddorol ac atyniadol â phosib.

Nawr mae'n awyddus i'w hefelychu, ac ar hyn o bryd mae'n astudio i fod yn athro ysgol uwchradd ym Mhrifysgol Aberystwyth:

"Y rheswm am fy mod i eisiau dysgu hanes nawr yw oherwydd yr athrawon ysbrydoledig a fu'n cymaint o ddylanwad arnaf – roeddent yn gyson yn chwilio am ffyrdd newydd a gafaelgar o gyflwyno hanes ac roeddent mor angerddol am eu pwnc - roedd yn amhosib peidio â chael fy ysbrydoli."

Mae Edward yn rhan o gwrs newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth sy'n caniatáu i fyfyrwyr gael profiad yn y sectorau uwchradd a chynradd, cyfle a all, yn ôl Edward, fod yn fuddiol tu hwnt:

"Er mai addysgu uwchradd yw fy nod, mae cael y cyfle i dreulio amser mewn lleoliad cynradd yn caniatáu imi ddatblygu fy sgiliau a hefyd yn gwneud imi ystyried sut i gyflwyno fy mhwnic i ddisgyblion iau yr ysgol uwchradd, wrth iddynt drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd. Gyda chymaint mwy o ysgolion 3-18 yn cael eu sefydlu yng Nghymru gallai'r profiad ymarferol hwn fod yn fanteisiol iawn wrth ddechrau chwilio am waith ymhen ychydig fisoedd."

Mae Edward yn gyffrous hefyd o fod yn rhan o'r garfan gyntaf o athrawon a fydd yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru ac mae'n frwd iawn i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i gyflwyno hanes Cymru mewn cyd-destun lleol,

"Yn aml gall hanes fod yn bwnc heriol i'w gyflwyno mewn ffordd sydd yn berthnasol i ddysgwyr ond mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi rhyddid inni fel athrawon gyflwyno hanes yng nghyd-destun treftadaeth leol y dysgwyr eu hunain. Mae'r cysyniad o Cynefin fel yr amlinellir yn y cwricwlwm yn caniatáu i athrawon osod hanes mewn cyd-destun lleol, perthnasol ond cysylltu hynny â materion ehangach ein byd.

"Dyma beth mae'r cwricwlwm newydd yn ei gynnig, syniadaeth mwy penagored a mwy o ryddid i fod yn greadigol o ran sut mae pwnc yn cael ei gyflwyno.

Yn dilyn mynychu ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ei hun, mae Edward yn awyddus i ddyysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac ar hyn o bryd mae'n astudio ar gyfer ei dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol:

"Rwy'n gefnogol iawn o ddyheadau Llywodraeth Cymru am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chredaf y gall ein system addysg chwarae rhan allweddol wrth anelu at y targed hwnnw.

"Rwy'n awyddus iawn i gychwyn ar yr addysgu a throsglwyddo fy angerdd am hanes i'r genhedlaeth nesaf."

#AddysguCymru
www.addysgwyr.cymru